

CYNON CYMUNED LLANILLTUD FARDREF
LLANTWIT FARDRE COMMUNITY COUNCIL



Hysbysiad archwilio

Hysbysiad pennu'r dyddiad ar gyfer arfer hawliau etholwyr

CYNON CYMUNED LLANILLTUD FARDREF

Blwyddyn ariannol yn dod i ben ar **Mawrth 31 ain 2026**

1. Dyddiad cyhoeddi **16 Mehefin 2026**
2. Bob blwyddyn, archwilir y cyfrifon blyneddol gan Archwilydd Cyffredinol Cymru. Cyn y dyddiad hwn, mae unrhyw berson â diddordeb yn cael cyfle i archwilio a gwneud copïau o'r cyfrifon a'r holl lyfrau, gweithredoedd, contractau, biliau, talebau a derbynebau ac yn y blaen sy'n ymwneud â hwy am 20 diwrnod gwaith ar rybudd rhesymol. Ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2025, bydd y dogfennau hyn ar gael ar rybudd rhesymol ar gais i:

Canolfan Gymunedol Ty Iltud,

Ffordd Saint Illyds,

Pentref Eglwys

CF38 1DB

Rhwng yr oriau o **9.00am a 4.30pm** __ o **Ddydd Llun i Ddydd Iau** a

9.00am – 1.00pm Dydd Gwener

Yn dechrau ar **1 Gorffennaf 2026**

Ac yn dod i ben ar **28 Gorffennaf 2026**

1. O **15 Medi 2026**, hyd nes y bydd yr archwiliad wedi ei gwblhau, mae gan Etholwyr Llywodraeth Leol a'u cynrychiolwyr hefyd:

- yr hawl i holi'r Archwilydd Cyffredinol ynglŷn â'r cyfrifon.
- yr hawl i ddod gerbron yr Archwilydd Cyffredinol a mynegi gwrthwynebiad i'r cyfrifon neu unrhyw eitem ynddynt. Rhaid rhoi rhybudd ysgrifenedig o wrthwynebiad i'r Archwilydd Cyffredinol yn gyntaf. Rhaid rhoi copi o'r rhybudd ysgrifenedig hefyd i'r Cyngor.

Gellir cysylltu â'r Archwilydd Cyffredinol drwy: Archwiliadau Cyngorau Cymuned, Archwilio Cymru, 1 Cwr y Ddinas, Stryd Tyndall, Caerdydd, CF10 4BZ neu drwy e-bost yn archwiliadcyngorcymunedol@archwilio.cymru.

2. Cynhelir yr archwiliad o dan ddarpariaethau Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004, Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014 a Chod Ymarfer Archwilio Archwilydd Cyffredinol Cymru.

Hawliau etholwyr o dan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004

Yn ôl y gyfraith, gall unrhyw un archwilio cyfrifon y cyngor. Os ydych wedi cofrestru i bleidleisio mewn etholiadau cyngorau lleol, mae gennych chi (neu rywun sy'n gweithredu ar eich rhan) yr hawl hefyd i ofyn cwestiynau i'r Archwilydd Cyffredinol am y cyfrifon ac i godi gwrthwynebiadau ffurfiol.

Arolygu'r cyfrifon

Unwaith y bydd y cyngor wedi cwblhau ei gyfrifon, rhaid iddo hysbysebu eu bod ar gael i'w harchwilio. Ar ôl rhoi rhybudd rhesymol, gallwch archwilio'r cyfrifon a'r dogfennau ategol am 20 diwrnod gweithio. Gellir gofyn am gopïau, er y gallai fod tâl copïo am hyn.

Gofyn cwestiynau i'r archwilydd

Dim ond am y cyfrifon sy'n destun archwiliad y gellir gofyn cwestiynau. Nid oes rhaid i'r Archwilydd Cyffredinol ateb cwestiynau am bolisïau, penderfyniadau neu weithdrefnau'r cyngor oni bai eu bod yn ymwneud yn uniongyrchol â'r cyfrifon, ac nid oes rhaid iddo ddweud a yw rhywbeth yn gyfreithlon neu'n rhesymol.

Gwrthwynebu'r cyfrifon

Os ydych chi'n credu bod y cyngor wedi gwario arian yn anghyfreithlon, neu fod

rhywun wedi achosi colled ariannol yn fwriadol neu drwy ymddygiad anghyfrifol, gallwch wrthwynebu. Rhaid gwneud gwrthwynebiadau yn ysgrifenedig i'r Archwilydd Cyffredinol, egluro'r rhesymau'n glir, a rhaid anfon copi at y cyngor hefyd. Bydd yr Archwilydd Cyffredinol yn penderfynu pa gamau, os o gwbl, i'w cymryd. Mewn rhai achosion, efallai y byddwch yn apelio i'r llysoedd. Gallwch hefyd wrthwynebu os ydych chi'n credu bod problem yn y cyfrifon y dylid ei adrodd yn gyhoeddus er budd y cyhoedd. Ni ellir defnyddio'r broses hon i wneud cwynion neu hawliadau personol.

Ffyrdd eraill o godi pryderon

Yn hytrach na gwneud gwrthwynebiad ffurfiol, gallwch ddarparu gwybodaeth i'r Archwilydd Cyffredinol os ydych chi'n credu bod gwallau yn y cyfrifon neu bryderon am wastraff neu aneffeithlonrwydd. Nid oes unrhyw weithdrefnau na dyddiadau cau penodol ar gyfer gwneud hyn.

Gwybodaeth bwysig

Mae'r gost o ddelio â chwestiynau a gwrthwynebiadau yn cael ei dalu gan drethdalwyr lleol. Dim ond materion sydd er budd y cyhoedd y bydd yr Archwilydd Cyffredinol yn ymchwilio. Os byddwch yn mynd â mater i'r llys, efallai y bydd yn rhaid i chi dalu eich costau eich hun.

Cysylltwch

Cysylltwch ag Archwilydd Cyffredinol CymruArchwiliadau Cyngor Cymuned,
Archwilio Cymru1 Capital Quarter, Stryd TyndallCaerdydd, CF10 4BZ